

Y Digartref

Darlleniad: Deuteronomium 15: 7-11

Ein Tad, diolchwn i ti dy fod yn Dduw sydd wedi gofalu amdanom. Mae dy fendithion yn dod inni bob bore o'r newydd, ac yr ydym yn medru tystio i dy ddaioni mewn amryw byd o ffyrdd hyd yn oed heddiw. Yr wyt yn Dduw sy'n fawr dy ofal tuag at ddynion sy'n dy esgeuluso yn barhaus. Diolch i ti, O! Arglwydd, er ein bod ni'n anffyddlon, rwyd ti'n parhau yn ffyddlon.

Diolch am dy ffyddlondeb yn Iesu Grist. Diolch am un a ddaeth yn ddyn, sy'n ein hadnabod, yn adnabod ein gwendid, yn adnabod ein hangen, yn adnabod y temtasiynau, yr anhawsterau, y rhagluniaethau croes sy'n gymaint rhan o'n bywyd yn aml. Diolch fod Iesu wedi gwisgo cnawd, ac yn y cnawd hwnnw wedi cyrraedd holl amrywiaeth amgylchiadau ein bywyd.

Diolch fod Iesu'n awr yn y nef, yn barod i eiriol drosom, ac yn abl i adnabod y deisyfiadau na allwn eu mynegi'n gywir o dy flaen. Diolch Ei fod yn abl hyd yn oed i roi geiriau inni, pan fydd ein geirfa ni'n rhy gyfyng.

O ganol ein cysuron, o ganol ein hyder yn dy ofal, cyflwynwn y di-gartref ger dy fron yn awr. Gwelsom ddarluniau lu, ar y teledu, yn y papur, o bobl sy'n byw o dan gysgod pont, mewn drws siop, a'r cardfwrdd yn garthen drostynt. Rydym am gydnabod fod hyn yn haws i ni na dod wyneb yn wyneb â hwy. I ni sydd yng nghanol ein digon, efallai yn ein tyb ni ar gyfrif cefndir, neu ymdrech, neu lafur, mae yn hawdd beirniadu, ac esgusodi ein hunain rhag cymryd fawr o sylw ohonynt. Rydym yn adnabod ein balchder, O! Arglwydd; rydym yn adnabod ein hymffrost, y modd y mae yn brigo i'r wyneb, gan symud unrhyw gyfrifoldeb tuag at y bobl hyn o'n meddwl yn llwyr.

Gofynnwn i ti, O! Dad, i ddelio â ni, er mwyn delio â'r digartref

yn ein gwlad. Arglwydd, gweddiwn y bydd i'n calon galed gael ei thoddi fel cwyr, yn wyneb fflam dy gariad di. Yr ydym yn cael fod y tlawd yn cael ei gasau gan hyd yn oed ei gydnabod, ond mae digon o gyfeillion gan y cyfoethog. Cydnabyddwn hefyd mai'n gnawdol yr ydym yn rhesymu yn aml, heb adnabod wyneb ein Gwardwr yn wyneb y tlawd, y digartref, yr esgymun. Yr ydym yn galw am galon ar ddelw yr hwn a'i gwnaeth, yn llawn o'i gariad Ef, calon fo wedi ei meddu yn gloi gan y cariad hwn, sy'n agor ein dwylo i weini'n dirion mewn byd, lle mae y cyfoethog a'r tlawd ochr yn ochr.

Arglwydd, rwyf wedi ein bendithio ni'n helaeth, rwyf wedi rhoi mwy na digon inni, ac eto mae ein pechod yn golygu ein bod angen mwy a mwy, ac nad oes gennym ond y rhan leiaf i rannu. Nid ydym yn rhoi yn llawen, y mae ein llaw dde'n gwybod yn dda am weithred y llaw chwith, y mae eisiau personol yn flaenoriaeth ar angen arall.

Arglwydd, maddau inni a dyro dy Ysbryd Glan i'n sancteiddio yn bobl i ti, i'r graddau y byddwn yn dy wasanaethu y bydd i ni gofio yr un a fethodd â chael lle i roi ei ben i lawr. Clyw ni o Iesu, er mwyn dy enw. Amen.

Meirion Morris